



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor  
Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer y flwyddyn 2014–15

# **Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014 - 2015**

**Awdurdod**

**Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

**Mae'r Adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Blaenau Gwent wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

## **1. Crynodeb**

- 1.1. Mae gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent wedi gweld cyfnod sefydlog yn ystod 2014-15. Y flwyddyn flaenorol, gwelwyd newidiadau sylweddol ar lefel gorfforaethol a lefel adrannol ac arweiniodd hyn at ailstrwythuro yn y cyngor ac yn y gwasanaethau cymdeithasol. Yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd nodwyd fod y gwasanaethau cymdeithasol wedi llwyddo i gynnal perfformiad cyson er gwaethaf yr agenda newid.
- 1.2. Mae'r cyngor wedi parhau i wneud cynnydd o ran datblygu ei adran gwasanaethau cymdeithasol yn 2014-15. Mae hyn wedi adeiladu ar sylfeini blynyddoedd blaenorol.
- 1.3. Yn y gwasanaethau plant roedd hyn yn cynnwys parhad o'r gwasanaethau a ailstrwythurwyd yn flaenorol. Llwyddodd y cyngor i gynnal perfformiad da fel yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y gwasanaethau cymdeithasol yn rhagweithiol o ran ceisio gwella a datblygwyd cynllun gweithredu a'i roi ar waith mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn arolygiad AGGCC o blant sy'n derbyn gofal 2013-2014.
- 1.4. Cafodd y gwasanaethau oedolion eu hailstrwythuro yn ystod 2014-15 yn unol â'r gwasanaethau plant i ddarparu dull yn seiliedig ar yr ardal i gefnogi a rhoi cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu'r agendâu ataliol ac integreiddiad ac yn gosod y cyngor mewn safle cryf o ran bod yn barod ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- 1.5. Yn 2013-2014 nodwyd meysydd i'w gwella'n gorfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn golygu bod angen darparu cefnogaeth allanol a mewnbwn i hybu gwella trefniadau llywodraethu ac i sicrhau dull cadarn a chyson o gyllidebu a chynllunio yn y cyngor. Gweithiodd y cyngor yn agos gyda'r tîm cefnogi a'r rheoleiddwyr yn ystod y cyfnod hwn a gwelwyd cynnydd sylweddol o ran cyflawni hyn.

- 1.6. Mae Adroddiad Blynyddol cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn darparu darlun cynhwysfawr o statws cyfredol gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn nodi cynnydd ar flaenoriaethau a chyflawniadau'r flwyddyn flaenorol a meysydd i'w datblygu yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys symud trefniadau cydweithredol ymlaen gyda darparwyr iechyd a thrydydd sector a cheisio cael adnoddau amgen i gefnogi newid a datblygiad mewn amgylchedd ariannol cyfyngedig.
- 1.7. Mae'r cyfarwyddwr wedi ystyried ac amlinellu'r trefniadau i gefnogi darpariaeth y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu unrhyw iaith arall a fo angen. Mae hyn yn cynnwys dulliau o gefnogi gweithredu 'Mwy na Geiriau' - Fframwaith Strategol Gwasanaethau Iaith Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

## 2. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

<b>Maes i'w wella a nodwyd y llynedd</b>	<b>Cynnydd yn 2014-15</b>
Dylai'r cyngor ddatblygu systemau ffurfiol i ganfod anghenion a ragwelir ar gyfer gwasanaethau anabledau dysgu i fod yn sail i gomisiynu;	Roedd prosiect wedi'i roi ar waith i ganfod tueddiadau yn y dyfodol. Mae prosesau adolygu ansawdd a gychwynnodd yn y flwyddyn flaenorol wedi'u rhoi ar waith yn y gwasanaethau oedolion.
Dylai'r cyngor ddatblygu systemau i fonitro effeithiolrwydd adnoddau ychwanegol i gefnogi rhyddhau o'r ysbyty	Gwnaed cynnydd. Mae adrodd a monitro chwarterol ar oedi wrth drosglwyddo gofal (DTCO) ar waith.
Dylai'r cyngor ddyfeisio cynllun ffurfiol i fesur cynnydd yr wyth blaenoriaeth a nodwyd yn y strategaeth caffael.	Roedd cynllun cyflwyno/gweithredu wedi'i ddatblygu i fonitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn
Dylai'r cyngor gyhoeddi pecynnau gwybodaeth gofalwyr gyda'r staff i sicrhau fod hyn ar gael yn hawdd	Penodwyd swyddog cefnogi gofalwyr i hybu gwasanaethau i ofalwyr ym mis Medi 2014
Dylai'r cyngor atgyfnerthu cynllunio gofal yn y gwasanaethau oedolion i sicrhau dull yn seiliedig ar ganlyniad	Mae'r cyngor yn cymryd rhan yn y cynllun peilot ar gyfer fframwaith canlyniadau cenedlaethol i oedolion a arweinir gan SSIA.
Dylai'r cyngor sicrhau fod mecanweithiau ar waith i fonitro ansawdd y canlyniadau a dangos tystiolaeth o ganlyniadau yn y gwasanaethau plant	Gwnaed cynnydd. Bu i'r grŵp rhianta corfforaethol ailymgynnull a threfnwyd cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r grŵp hwn yn monitro canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
Dylai'r cyngor fonitro baich achosion i sicrhau fod nifer y staff a'u sgiliau'n	Gwnaed cynnydd. Mae systemau monitro ac adrodd misol ar waith a

adlewyrchu anghenion pobl	darperir adroddiadau eithriad i'w harchwilio. Nododd ymarfer cwmpasu i adolygu'r gweithlu nifer uchel o weithwyr cefnogol sydd yn brofiadol iawn a bod dyraniad y gwaith yn adlewyrchu hyn. Mae trefniadau goruchwylio ar waith i gefnogi staff yn y rôl hon
Dylai'r cyngor gyfrannu at hyrwyddo camau gweithredu sy'n codi o'r adolygiad diweddar o GWASB.	Gwnaed rhywfaint o gynnydd. Mae'r bwrdd wedi penodi rheolwr i fynd ymlaen a'r camau gweithredu
Dylai'r cyngor ddatblygu fframwaith trosfwaol i'w adolygu sy'n cyfrannu at ddatblygu a chynllunio parhaus darpariaeth gwasanaeth	Mae'r cyfarwyddwr yn nodi fod hyn wedi'i gyflawni'n rhannol. Mae strwythur perfformiad ar gyfer y cyngor wedi'i ddatblygu a disgwylir cynnydd pellach gyda chyfraniad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn 2015-16.

### 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau safle ac adolygiadau'n rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n derbyn gwasanaethau, eu teuluoedd a staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014/15, cynhaliwyd ymweliadau safle i'r canlynol:
- Y tîm diogelu oedolion.
- 3.2. Cyfarfu AGGCC hefyd gydag uwch swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn i adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ac i drafod cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd.
- 3.3. Yn ystod y flwyddyn, bu i AGGCC hefyd gynnal arolygiadau ar wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a gan weithredwyr annibynnol. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau o'r Gwasanaeth Maethu mewnol. Mae manylion am y rhain wedi'u cynnwys mewn adroddiadau a gyhoeddwyd ac ar gael ar wefan AGGCC.

### 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Mae nifer o feysydd penodol i'w gwella wedi cael eu nodi yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu arferol yn y flwyddyn i ddod. Bydd meysydd penodol ar gyfer gwella'n cynnwys:

- Ymweliadau i 'hwb' pobl hyn.
- Ymweliadau i'r gwasanaethau plant (tîm dyletswydd a chyfeiriadau a'r tîm lleol).
- Cyfarfod a gofalwyr ifanc.
- Cyfarfod a chysylltwyr cymunedol.

## **5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016**

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref.
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant sy'n derbyn gofal.

## **6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?**

### Oedolion

#### **Trosolwg**

- 6.1. Parhaodd y cyngor i ddatblygu gwasanaethau i adlewyrchu 'Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent' a nodwyd fel gôl ar gyfer 2014-15 yn adroddiad blynyddol 2013-2014 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r strategaeth wedi'i ddiweddarau ers y flwyddyn flaenorol i adlewyrchu ystadegau poblogaeth cyfredol, amlinellu'r twf parhaus yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn ogystal â chymhlethdod anghenion pobl fydd o bosibl angen cyngor a chefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn ymwneud ag effaith y newid deddfwriaeth ac mae cynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol wedi'i ddatblygu er mwyn cefnogi datblygiad y gwasanaeth i adlewyrchu hyn.
- 6.2. Mae gwasanaethau wedi'u datblygu i adlewyrchu anghenion lleol ac i barhau i gefnogi'r agenda am newid mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Roedd hyn yn cynnwys:
  - Datblygu dau 'hwb' ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn nwyrain a gorllewin y fwrdeistref. Mae'r timau'n cynnwys cymysgedd o sgiliau i gefnogi ystod eang o anghenion gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn i gefnogi pobl gydag anghenion gofal dementia. Mae'r timau wedi'u cydleoli gyda'r tîm adnoddau cymunedol a

phartneriaid iechyd i wella cyfathrebu a chydweithio. Mae AGGCC yn bwriadu ymweld â'r gwasanaeth yn 2015-2016 i gael trosolwg o lwyddiant hyn.

- Mwy o ddarpariaeth gofal tymor byr i ail-alluogi ac atal mynd mewn i'r ysbyty.
  - Cymryd rhan yng nghynllun peilot mesurau canlyniadau ar gyfer pobl hyn.
- 6.3. Er ei bod yn fuan i fesur llwyddiant y strwythurau newydd, mae'r cyngor wedi arddangos fod cyfle gwell i sicrhau fod pobl sydd yn derbyn gwasanaeth yn barod yn derbyn cefnogaeth briodol. Gwelir tystiolaeth o hyn gan y dangosyddion perfformiad sy'n arddangos gwelliannau mewn nifer o adolygiadau a gynhaliwyd. Cynyddodd y rhain o 78% yn 2013-2014 i 80% yn 2014-15 sydd ar yr un lefel a'r cyfartaledd cenedlaethol.
- 6.4. Mae nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn rhoi darlun sy'n cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau o fewn adolygiad Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent. Mae'r nifer o bobl hyn sy'n derbyn cefnogaeth yn y gymuned wedi cynyddu'n raddol ers y flwyddyn flaenorol (87% yn 2014-2015 o 83% yn 2012-2013), mae hyn yn gynrychioliadol o awdurdodau tebyg ac yn cael ei ategu ledled Cymru. Hefyd, mae cynnydd yn y nifer o bobl rhwng 18 a 65 mlwydd oedd sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn hytrach na gofal preswyl. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ers 2012-2013 96% i 2014-2015 99%. Mae hyn yn nodi llwyddiant y strategaethau ail-alluogi ac annibyniaeth.
- 6.5. Mae ymrwymiad parhaus i gydweithio â phartneriaid er mwyn gwella mynediad at wasanaethau cefnogi annibyniaeth a datblygu ac archwilio ffyrdd newydd o weithio i wella mynediad amserol at gefnogaeth a chyngor. Er enghraifft, yn y gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu mae cynnydd wedi bod yn y Strategaeth Gwent Gyfan gyda phartneriaid yn dysgu o gynllun peilot dull newydd i wasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerffili. Mae'r 'dull meddwl systemau' hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth peilot ar gyfer pobl ag anableddau dysgu sy'n cael ei gynnal gan Flaenau Gwent. Mae gan y bwrdd partneriaeth strwythurau a threfniadau ar waith er mwyn gwerthuso a dysgu o'r prosiectau peilot hyn.
- 6.6. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent yn aelodau o'r bwrdd diogelu oedolion rhanbarthol ac yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r rheolwr wedi llwyddo i roi'r camau gweithredu ar waith mewn ymateb i adolygiad allanol y bwrdd o'r swyddogaethau yn 2013-2014. Nodwyd fod cynnydd mewn perthynas â hyn wedi 'gwella' o ran ail-siapio'r is-grwpiau o'i fewn. Bydd angen i'r bwrdd ystyried sut i ddatblygu hwn ymhellach mewn perthynas â phwerau a rheoliadau newydd yn y dyfodol.

- 6.7. Cynhaliodd AGGCC ymweliad safle â'r gwasanaeth diogelu yn 2014-2015. Darparodd hyn ddarlun cadarnhaol o ran traws-weithio yn yr adran gan gynnwys y rhyngwyneb gyda'r tîm monitro contractau a chomisiynu, cyfathrebu gyda'r tîm cefnogi pobl yn ogystal â chyfleoedd i gyfrannu at ddatblygiad yr agenda ataliol. Nodwyd meysydd i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach ac mae dangosyddion perfformiad yn dangos fod y ganran o oedolion sy'n cael eu gwarchod lle mae risg wedi'i reoli wedi syrthio ers y flwyddyn flaenorol o 98% i 93%. Roedd adborth diweddar gan bennaeth y gwasanaeth yn nodi fod datblygiadau wedi cael eu gwneud mewn ymateb i ganfyddiad yr ymweliad. Mae hyn yn cynnwys cynyddu capasiti yn y tîm i wella cyfleoedd i adolygu a dysgu o safon. Dylai'r fonitro cynnydd gyda hyn.
- 6.8. Mae'r cyngor yn cadw rhywfaint o wasanaethau mewnol gan gynnwys gwasanaeth gofal cartref sy'n cael ei ailffurfio mewn ymateb i anghenion lleol i gyfrannu at y ddarpariaeth ail-alluogi yn y fwrdeistref a chynllun tai gofal ychwanegol i bobl hyn. Roedd y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gofal gan y cyngor sy'n cael eu rheoleiddio gan AGGCC gan gynnwys asiantaethau gofal cartref a chartrefi gofal yn amrywio o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Lle'r oedd pryderon wedi'u codi gan y rheoleiddwyr a thrwy fonitro'r cyngor ei hun roedd y tîm comisiynu'n gweithredu'n syth i geisio cael gwelliant gan ddarparu'r y gwasanaeth, roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau'r cyngor ei hun.

## **Blaenoriaethau Cenedlaethol Allweddol (Oedolion)**

### **Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

- 6.9. Mae'r cyngor wedi ymrwmo i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys trefniadau lleol a gweithio gyda phartneriaid yn y sector iechyd, gofal a'r trydydd sector i ddatblygu gwasanaethau sy'n bodoli'n barod ac i archwilio dulliau newydd o gefnogi. Mae hyn yn cynnwys:
- Model llesgedd - mae'r model rhanbarthol o dderbyn i'r ysbyty a rhyddhau'n fuan wedi'i adolygu'n annibynnol a gwelir ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ailfodelu'r tîm adnoddau cymunedol i gynnwys staff gwaith cymdeithasol ychwanegol i gefnogi'r tîm gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau i hwyluso rhyddhau'n fuan o'r ysbyty.
  - Cyflwyno pedwar gwely 'camu i fyny/ camu i lawr' yn y gwasanaethau gofal ychwanegol a chartref gofal.



- Ailffurfio'r gwasanaeth gofal cartref mewnol i gefnogi'r gwasanaeth ail-alluogi.
- 6.10. Gwnaed cais am arian ychwanegol i ddarparu swyddi cysylltwyr cymunedol i ddatblygu rhwydweithiau lleol o wybodaeth i gefnogi pobl i fod yn fwy annibynnol. Bydd gwerthusiad ffurfiol o lwyddiant y rôl hon yn cael ei gynnal ar sail ranbarthol er bod enghreifftiau lleol cadarnhaol wedi'u cyflwyno fel astudiaethau achos.
- 6.11. Mae tystiolaeth i gefnogi llwyddiant y strategaethau hyn er enghraifft mae gostyngiad wedi bod yn y nifer o drosglwyddiadau i ofal lle bu oedi oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol o 6 o bobl fesul 1000 yn 2013-2014 i 4 yn 2014-2015. Yn ychwanegol at hynny, mae gostyngiad wedi bod yn y nifer o bobl dros 65 mwyd oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned o 128 fesul 1000 o'r boblogaeth yn 2013-14 i 121 yn 2014-15. Mae hyn cario tuedd o ostwng ymlaen o'r tair blynedd flaenorol. Mae hyn hefyd yn amlwg yn y nifer o bobl hyn y mae'r cyngor yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal sydd wedi gostwng am y bedwaredd flwyddyn o 22 fesul 1000 yn 2013-14 i 19 yn 2014-15.
- 6.12. Hefyd, mae'r cyngor yn parhau i archwilio opsiynau i gefnogi pobl i fod yn annibynnol gan gynnwys menter gymdeithasol gyda'r opsiynau cymunedol o gaffi a rhannu dysgu gydag awdurdodau lleol eraill. Er enghraifft y defnydd o ddulliau meddwl systemau a ddefnyddir yn y gwasanaethau anabledau dysgu ac ystyried peilot lleol o ddarpariaeth hyblyg gwasanaethau yng nghartrefi pobl.

### **Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth**

- 6.13. Mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu perthnasau gyda phartneriaid iechyd er mwyn datblygu modelau newydd o ofal a gwella strwythurau sy'n bodoli'n barod. Roedd hyn yn cynnwys y staff gofal cymdeithasol ychwanegol a geisiwyd i ddatblygu'r tîm llesgedd a gweithredu dau hwb gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae'r hybiau'n darparu cydleoiliad i staff iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ein cyfarfodydd gyda thîm rheoli gwasanaethau cymdeithasol, mae'r ymrwymiad i symud ymlaen at integreiddiad pellach yn amlwg. Mae ychwanegu adnoddau ail-alluogi pellach e.e. Gwelyau camu fyny camu lawr a staff gofal cartref ychwanegol hefyd wedi cyfrannu at agenda wedi'i rannu gydag iechyd. Dylai'r cyngor ystyried weithio gyda phartneriaid iechyd i sefydlu llwybr i ddatblygu integreiddiad yn y dyfodol.

### **Meysydd o gynnydd**

- Cynnydd parhaus gyda strategaethau i gefnogi annibyniaeth ac ataliad.

- Symud strategaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu Gwent gyfan ymlaen.
- Cynnydd o ran cydweithredu/integreiddio gyda phartneriaid iechyd.

### **Meysydd i'w gwella**

- Dylai'r cyngor ystyried weithio gyda phartneriaid iechyd i sefydlu llwybr i ddatblygu integreiddiad yn y dyfodol.
- Parhau i fonitro ansawdd a chanlyniadau yn y tîm diogelu oedolion.

### **Plant a phobl ifanc**

#### **Trosolwg**

- 6.14. Mae gwasanaethau plant wedi cael eu hailstrwythuro yn 2012-13 gan ddarparu gwasanaethau lleol ac adroddwyd fod adolygiad pellach o'r ddarpariaeth yn arddangos trefniadau gweithio llwyddiannus ar gyfer y timau a ail-ffurfiwyd. Mae mynediad at wasanaethau plant yn cael ei ddarparu drwy un man mynediad sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i blant. Mae hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol gyda'r gwasanaethau ataliol a chyfeirio at gefnogaeth a mecanweithiau perthnasol ar gyfer ymyrraeth gynnar.
- 6.15. Mae'r cyngor wedi cynnal perfformiad da yn y gwasanaethau oedolion. Arhosodd y cyfeiriadau y gwnaed penderfyniad arnynt mewn un diwrnod gwaith ar yr un lefel a'r flwyddyn flaenorol sef 100% gyda 95% o'r asesiadau cychwynnol yn cael eu cyflawni o fewn y terfynau amser gofynnol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol 76%. O'r cyfeiriadau hynny a aeth ymlaen i gael eu hasesu gwelwyd 58% gan weithiwr cymdeithasol; mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o'r flwyddyn flaenorol lle cynhaliwyd 63% o asesiadau gan weithiwr cymdeithasol. Mae hyn yn llai nag awdurdodau cymaradwy eraill a'r cyfartaledd cenedlaethol o 73%. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei fod yn cael effaith amlwg o ran y gwasanaethau ail-gyfeirio. Mae'r gyfradd ail-gyfeirio wedi aros yn sefydlog ar 13% a chryn dipyn yn is nag awdurdodau tebyg. Yn ystod ein cyfarfodydd ymgysylltu gyda gwasanaethau cymdeithasol roedd pennaeth y gwasanaeth yn glir fod gweithwyr profiadol yn cael eu goruchwyllo wrth gymryd rolau asesu ac yn rhoi gwybod am hyn drwy adrodd eithriad i archwilio. Dylai'r cyngor fonitro hyn a'i ystyried ochr yn ochr â mesurau canlyniadau yn y dyfodol.
- 6.16. Mae trefniadau diogelu rhanbarthol wedi'u sefydlu'n dda gyda Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB). Mae hyn yn cynnwys gwefan hygyrch a chyfleoedd i rannu dysgu yn rhanbarthol. Ar lefel lleol

nid lwyddodd y cyngor i gynnal ei berfformiad o'r flwyddyn flaenorol ar bob agwedd o warchod plant. Parhaodd perfformiad eleni yn gryf mewn perthynas â chynadleddau cychwynol gwarchod plant ar 100%, syrthiodd cyfarfodydd craidd i 96% ac roedd adolygiadau diogelu plant o fewn terfynau amser statudol yn 93% - cwmp o 97% y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yng nghyd-destun baich gwaith trymach o fewn gwarchod plant. Roedd terfynau amser ar gyfer adolygiadau gwarchod plant yn is na mewn awdurdodau cymaradwy a'r cyfartaledd cenedlaethol a dylai'r cyngor fonitro hyn er mwyn cynnal ei berfformiad blaenorol.

- 6.17. Yn 2014 -15 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau awdurdod lleol i gefnogi Diogelu Plant, a chanfod fod rhai gwendidau o ran llywodraethu, atebolrwydd a rheoli trefniadau ar gyfer goruchwyllo p'un ai yw'r Cyngor yn bodloni ei gyfrifoldebau i blant, ac mae angen i'r Cyngor roi sylw i hyn. Bydd AGGCC yn dilyn cynnydd hyn trwy ein cyfarfodydd ymgysylltu.


### **Blaenoriaethau Cenedlaethol Allweddol (plant)**

#### **Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

- 6.18. Mae'r cyngor yn parhau i ddilyn model atal a chefnogi yn weithredol. Yn y gwasanaethau plant mae'r cyngor wedi adeiladu ar y newidiadau i strwythurau'r tîm a roddwyd ar waith yn 2013-2014. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) drwy'r amser gan gynnwys gwasanaethau Dechrau'n Deg sydd wedi symud o fewn rheolaeth gwasanaethau cymdeithasol ynghyd a thîm gofal plant a chwarae'r blynyddoedd cynnar a theluoedd yn gyntaf. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella cyfathrebu ymhellach ac yn cefnogi gwasanaethau plant yn ei strategaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Cafwyd arian ychwanegol i ehangu gwasanaethau dechrau'n deg a chynghorwyd y cyngor fod hwn wedi bod yn llwyddiannus o ran cynyddu'r ddarpariaeth yn y fwrdeistref. Mae data perfformiad yn nodi ei bod yn bosibl fod y dull hwn yn cael effaith gyda'r nifer o gyfeiriadau'n gostwng o 1194 yn 2013-14 i 1071 yn 2014-15 a'r ail-gyfeirio'n parhau'n sefydlog.
- 6.19. Bu i arolygiad rheoleiddio AGGCC o Wasanaethau Dechrau'n Deg yn y fwrdeistref roi darlun cadarnhaol o'r gwasanaethau a ddarparwyd.

#### **Plant sy'n derbyn gofal**

- 6.20. Mae gostyngiad wedi bod yn y gyfradd o blant sy'n derbyn gofal fesul 1000 o'r boblogaeth gan leihau o 10.25 yn 2014 i 9.75 yn 2015, er bod hyn yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 8.82. Mae'r nifer o blant sy'n derbyn gofal wedi aros ar lefelau tebyg am y chwe blynedd ddiwethaf.



### Nifer y Plant sy'n derbyn Gofal ar 31 Mawrth

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Blaenau Gwent	127	119	132	137	136	143	136

- 6.21. Mae'r cyngor wedi cynnal perfformiad da mewn perthynas â'i blant sy'n derbyn gofal. Roedd hyn yn cynnwys 100% o leoliadau cyntaf plant sy'n derbyn gofal gyda chynllun gofal ar waith a 98% o adolygiadau'n cael eu cynnal o fewn y terfynau amser. Yn ogystal â hynny, mae'r awdurdod wedi cynnal ei berfformiad mewn perthynas ag ymweliadau i'r plant sy'n derbyn gofal; mae'r rhain wedi aros yn sefydlog o'r flwyddyn flaenorol gyda 89% yn cael eu cynnal o fewn y terfynau amser, oedd yn uwch na pherfformiad awdurdodau cymaradwy a rhywfaint yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- 6.22. Mae'r cyngor wedi cynnal ei berfformiad cyson o ran cynllunio tymor hir a chefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal, mae hyn yn cynnwys cefnogaeth addysgol gyda 100% o blant a phobl ifanc gyda chynlluniau addysg personol ar waith, cynlluniau llwybrau i blant sy'n gadael gofal ac ymgynghorwyr personol dynodedig. Er bod y mecanweithiau cefnogi ar waith, mae cwmp wedi bod yn y cyrhaeddiad addysgol ar gyfnod allweddol 2 a 3 gyda dangosyddion cyrhaeddiad yn y pynciau craidd yn syrthio o 50% i 33% a 37%. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru a chyfartaledd awdurdodau cymaradwy. Mewn gwir dermau, nifer fechan o blant sydd yn cael eu cynrychioli yma (6 allan o 9 yn methu a chyflawni dangosyddion craidd ar gyfnod allweddol 2 a 5 allan o 8 ar gyfnod allweddol 3) ond dylai'r cyngor archwilio'r rhesymau dros hyn a'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn.

- 6.23. Mae Blaenau Gwent yn cynnal Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru. Bellach, mae hyn yn cwmpasu pum awdurdod Gwent yn ogystal â Chasnewydd a Chaerffili. Mae hyn yn ddatblygiad o drefniant 'tri partite' blaenorol. Er bod ein cyfarfodydd ymgysylltu wedi sefydlu fod rhai sialensiau wedi bod o ran staff yn addasu i'r ffyrdd newydd o weithiau, mae hwn wedi bod yn drefniant cadarnhaol. O ran sicrhau ei fod yn barhaol mae'r cyngor yn nodi fod mabwysiadau llwyddiannus yn uwch na'r targed.
- 6.24. Mae'r cyngor yn parhau i archwilio dulliau i recriwtio gofalwyr maeth i gynyddu'r ystod o gyfleoedd cefnogi i blant. Mae'r cyngor yn cymryd rhan yn y fenter genedlaethol 'Hyder mewn gofal', prosiect pum mlynedd i atgyfnerthu chefnogaeth i ofalwyr maeth ac i roi rhaglen hyfforddi ar waith i gefnogi gofalwyr maeth yn eu rôl. Roedd arolygiad rheoleiddio AGGCC ar wasanaethau maethu'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar ansawdd bywyd. Gwelwyd darlun cadarnhaol o'r gefnogaeth a ddarparwyd drwy adborth gan bobl ifanc a gofalwyr maeth. Roedd hyn yn cynnwys cysylltiadau i wasanaethau eiriolaeth. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan AGGCC.

### **Meysydd o gynnydd**

- Symud i wasanaeth mabwysiadau rhanbarthol.
- Recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth yn llwyddiannus.

### **Meysydd i'w gwella**

- Roedd graddfeydd amser ar gyfer cynnal adolygiadau gwarchod plant yn is nag awdurdodau cymaradwy a'r cyfartaledd cenedlaethol a dylai'r cyngor ymchwilio i'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn.
- Archwilio a monitro cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## **7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth**

- 7.1. Nid yw tîm rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol wedi newid ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys y cyfarwyddwr, pennaeth y gwasanaeth a'r haen oddi tan oar lefel rheolwr gwasanaeth. Mae hyn wedi rhoi sail sefydlog i adeiladu newid parhaus a datblygu gwasanaethau.

- 7.2. Yn y gwasanaethau plant, adroddwyd am strwythurau newydd a ymgorfforwyd ac mae sefydlogrwydd yn y gweithlu a llai o salwch wedi galluogi cynnal perfformiad er bod mwy o bwysau baich gwaith. Mae hyn oherwydd cymhlethdod plant sydd angen gofal a chefnogaeth. Dylai'r cyngor sicrhau eu bod yn monitro cyfradd cyfeiriadau yn barhaus a'r effaith ar staff ac adnoddau.
- 7.3. Mae posibilrwydd y bydd ailstrwythuro gwasanaethau oedolion yn cael effaith ar staff a bydd angen monitro hyn yn agos, fel gyda'r gwasanaethau plant, er mwyn sicrhau nad yw pwysau'n effeithio ar y gweithlu ac felly'n effeithio ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Er bod y cyngor wedi ymrwymo i warchod gwasanaethau'r rheng flaen, mae'n anochel y bydd posibilrwydd o 'effaith taro ymlaen' o newidiadau corfforaethol i'r gweithlu. Er enghraifft yn ystod ymweliad safle AGGCC â'r tîm diogelu roedd pryderon ynglŷn â rhywfaith o'r gwasanaethau cefnogi ac alinio fel gwasanaethau comisiyno a gweinyddol yn cael eu symud yn ganolog. Yng nghanol y flwyddyn roedd cynnydd mewn salwch staff yn y gwasanaethau oedolion; roedd y cyngor cyn hyn wedi ymgymryd â maint sylweddol o waith i leihau salwch ac absenoldeb staff. Cadarnhaodd pennaeth y gwasanaeth fod hwn yn cael ei fonitro'n ofalus yn y gwasanaethau cymdeithasol ac ar draws y cyngor cyfan.
- 7.4. Mae'r cyfarwyddwr yn adrodd fod gwasanaethau cymdeithasol wedi cyflawni targedau arbedion a osodwyd ar gyfer y flwyddyn gan gyflawni tanwariant cyffredinol ynghyd a nodi arbedion ar gyfer 2015-2016. Cyflawnwyd hyn drwy ail-siapio'r gwasanaethau presennol a rheoli adnoddau i gefnogi arbedion. Adroddwyd fod penodi aelod o staff i weithio'n agos gyda phartneriaid iechyd i bennu p'un ai yw trefniadau gofal iechyd parhaus yn angenrheidiol yn hytrach na darpariaeth gofal cymdeithasol wedi arwain at raddfeydd amser gwell ar gyfer gwneud penderfyniadau ac mae hyn wedi arwain at arbedion i'r awdurdod lleol.
- 7.5. Ar lefel gorfforaethol nodwyd meysydd i'w gwella gan Swyddog Archwilio Cymru yn 2013-14. Roedd hyn yn golygu bod angen darparu cefnogaeth allanol a mewnbwn i hybu gwella trefniadau llywodraethu ac i sicrhau dull cadarn a chyson o gyllidebu a chynllunio yn y cyngor. Yn 2014-15, gwnaeth y cyngor gynnydd sylweddol wrth gyflawni gwelliannau angenrheidiol i ddarparu trefniadau strwythur a llywodraethu mwy sefydlog, Roedd hyn yn cynnwys 'prosiect trawsffurfio' a oedd ynghyd ag adrannau eraill yn golygu mewnbwn gan bersonél allweddol yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae strwythurau i fonitro perfformiad wedi'u datblygu ac maen nhw yn awr yn rhan o drefniadau llywodraeth gorfforaethol sydd yn cynnwys trosolwg o'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyfarwyddwr yn dweud y bydd y rhain yn parhau i gael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn ystod 2015-16. Bydd AGGCC yn dilyn cynnydd hyn drwy gyfarfodydd ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.

- 7.6. Mae trefniadau archwilio'n parhau i gael eu datblygu a'u hatgyfnerthu, er enghraifft, mae'r pwyllgor archwilio iechyd, gofal cymdeithasol a lles wedi cynnal sesiynau i ddiweddarau aelodau mewn perthynas â Deddf SSWB. Gwelwyd mwy o ddadlau a thrafodaeth gyda swyddogion yn ystod cyfarfodydd y gwnaeth AGGCC eu mynychu. Mae rheoleiddwyr yn ystyried y gallai hyn barhau i wella o'r flwyddyn flaenorol.
- 7.7. Mae gwaith wedi parhau er mwyn datblygu grŵp rhianta corfforaethol a chydabyddir fod ei rôl yn hanfodol er mwyn i'r cyngor gynnal ei gyfrifoldeb statudol mewn perthynas â phlant. Yn 2014-15 mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r polisi diogelu plant. Mae cyfarfodydd y pwyllgor archwilio addysg ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn chwarterol.
- 7.8. Mae'r cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid ac yn parhau i ystyried a datblygu perthnasau i atgyfnerthu trefniadau comisiynu yn y gwasanaethau plant ac oedolion. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau a mentrau gan weithio gydag iechyd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol rhanbarthol a sefydliadau o'r trydydd sector. Er enghraifft yn y gwasanaethau oedolion, mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol o wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i roi newid ar waith i adlewyrchu'r strategaeth ar y cyd ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu, 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl'. Mae Blaenau Gwent wedi cychwyn cynllun peilot ar gyfer model gofal yn y gwasanaethau anableddau dysgu. Mae'r tîm gweithlu ar y cyd mewn partneriaeth a gwasanaethau cymdeithasol Caerffili yn enghraifft bellach o fentrau partneriaeth da. Mae'r cynghorau'n archwilio sut y gellir defnyddio'r fenter hon ymhellach yn rhanbarthol. Yn y gwasanaethau plant mae gan wasanaethau eiriolaeth berthnasau gwaith da ac mae'r rhain wedi'u defnyddio i gomisiynu adborth gan blant a phobl ifanc o ran y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn.

### **Meysydd o gynnydd**

- Parhau i ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu.
- Datblygu strwythur ar gyfer monitro perfformiad.

### **Meysydd i'w gwella**

- Dylai'r cyngor fonitro baich gwaith i ganfod pwysau baich gwaith a bylchau mewn adnoddau.